# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio

**13 Rhagfyr 2017, 12.00pm**

**Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

**Nodyn o'r Cyfarfod ar: Crisis in Care**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol** | |
| Mike Hedges AC, Cadeirydd | Rachel Lewis, Age Cymru |
| Dai Lloyd AC | Rebecca Phillips, Age Cymru |
| Craig Lawton (ar ran Suzy Davies AC) | Kirsty Rees, swyddfa Mike Hedges |
| Mark Major (ar ran Caroline Jones AC) | **Ymddiheuriadau** |
| Stanislava Sofrenic, Y Groes Goch | Gaynor Davies, COPA |
| Maria Cheshire, Prifysgol Abertawe | John Davies, Cymru Egnïol |
| Beth Winter, Prifysgol Abertawe | Lynda Wallis |
| George Jones, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn | Sian Llewelyn, Contact the Elderly |
| Phyllis Preece, National Pensioner's Convention | |

DRAFT

Roedd Mike Hedges AC wedi cael ei ddal yn ôl, felly croesawodd Rachel Lewis bawb i'r cyfarfod.

**Care in Crisis**

Cyflwyniad Rachel Lewis, Age Cymru (nodiadau'r cyflwyniad yn amgaeedig)

Roedd gan Phyllis Preece bryderon nad yw pobl hŷn yn ymwybodol o'u hawliau. Mae angen dosbarthu mwy o wybodaeth i gyrraedd y person cyffredin. Mae newidiadau bach yn gwneud gwahaniaeth.

Dai Lloyd AC - mae awdurdodau lleol a meddygon teulu ac elusennau yn rhoi cyngor gwerthfawr. Mae Cynulliad Cymru hefyd yn gweithio i roi gwybodaeth i bobl.

Siaradodd Phyllis Preece am addasiadau tai a dywedodd y dylai pob adeilad newydd gael ystafell ymolchi i lawr y grisiau. Eglurodd Dai Lloyd y bydd pob adeilad newydd yn cael ei brawfesur yn ôl oedran ac y bydd ystafelloedd ymolchi i lawr y grisiau.

Mae ymchwil Bethan Winter wedi dangos bod gan ardaloedd trefol a gwledig wybodaeth wahanol ac, mewn ardaloedd gwledig, hyd yn oed pan fydd pobl yn gwybod beth mae ganddynt yr hawl iddo, nid yw gwasanaethau priodol ar gael iddynt bob tro.

Soniodd Rachel, os yw'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i lwyddo, bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth newydd. Dywedodd Maria Cheshire bod angen gwella gwybodaeth am fynediad at asesiadau fel bod pobl yn gwybod beth mae ganddynt yr hawl iddo.

Gofynnodd Phyllis Preece y cwestiynau pam na all pob awdurdod weithio yn yr un modd. Cytunodd Dai Lloyd AC.

George Jones: Mae'r Comisiynydd Pob Hŷn wedi bod yn edrych ar astudiaethau achos ac wedi nodi bod llawer o ofalwyr yn gwrthod y cynnig o asesiad gofalwyr.

Siaradodd Mike Hedges am y gwerthusiad o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Holodd y grŵp beth fyddai camau nesaf Age Cymru ar gyfer eu hymgyrch Care in Crisis? ac awgrymodd mai sgyrsiau yn canolbwyntio ar unigolion sy'n darparu gofal cymdeithasol ddylai fod yn gam nesaf. Cytunwyd y byddai'r grŵp yn gwahodd cynrychiolydd o'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i'r cyfarfod nesaf.

Cododd Stanislava y mater o ryddhau o'r ysbyty a bod pobl hŷn yn dal i gael eu rhyddhau o ysbytai heb unrhyw gynllun gofal wedi'i drefnu.

Gofynnodd Craig Lawton y cwestiwn a oes gan Age Cymru unrhyw wybodaeth am gyflwyno'r Ddeddf o ardal Abertawe. Soniodd Rachel am Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Bae Abertawe a darparu gofal yn ystod y nos. Cam gweithredu i ddosbarthu adroddiad Care in Crisis? i bawb. Soniodd Mike nad oedd gan yr awdurdodau lleol ddigon o arian.

Dywedodd Maria fod angen i'r sectorau gwirfoddol hyrwyddo eu gwasanaethau i awdurdodau lleol i wella integreiddio.

Cytunodd pob un o'r rhai a oedd yn bresennol fod angen inni gydweithio a thrafod rôl ymgyrchu gwleidyddol. Dywedodd Rachel fod yn rhaid i Age Cymru barhau'n amhleidiol, a dywedodd Mike Hedges mai rôl yr elusen ddylai fod i dynnu sylw at adroddiadau a phroblemau ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Awgrymodd Craig ein bod yn ysgrifennu at Jonathan Morgan, ac nid oes raid i chi ysgrifennu at y Gweinidogion bob amser, y gallwch ysgrifennu at AC.

Siaradodd Mike am y grŵp yn trefnu panel o Aelodau'r Cynulliad i gynnal sesiwn Holi ac Ateb.

Soniodd Dai Lloyd AC am Unigrwydd ac adroddiad diweddar y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. Cytunodd y grŵp fod cyswllt wyneb yn wyneb yn cael ei erydu yn ein bywydau cyhoeddus wrth i'r banciau / swyddfeydd post gau ac mae hyn wedi ychwanegu at unigrwydd ac unigedd pobl.

**Camau nesaf** ar gyfer y cyfarfod nesaf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac edrych ar unigrwydd os bydd amser yn caniatáu.

Diolchodd Mike i bawb am ddod.

**Camau i'w cymryd:**

- Y cyfarfod nesaf i ganolbwyntio ar iechyd a gofal cymdeithasol, i gynnwys unigrwydd
- Ysgrifennu at Weinidogion ar gynnydd y Gwerthusiad o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Gwahodd Cyfarwyddwr (Pennaeth) y Gwasanaethau Cymdeithasol / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i annerch y cyfarfod nesaf
- Gwahodd cynrychiolydd bwrdd iechyd i'r cyfarfod nesaf
- Dosbarthu adroddiad Care in Crisis? i bawb oedd yn bresennol.
- Ystyried cynnal panel gydag Aelodau'r Cynulliad i drafod gofal cymdeithasol.

DRAFT

DRAFT